Ymweld â'r Brifddinas

Isod ceir tabl yn dangos yr holl ddata sydd ar gael (gan Gyngor Twristiaeth Lloegr) ar nifer yr ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid yn Llundain, yn ystod y blynyddoedd 1994 i 2001.

Nifer yr ymwelwyr ag ugain o atyniadau mwyaf poblogaidd Llundain i dwristiaid 000oedd

	1994	1995	1996	1997	1998	1999	2000	2001
Eglwys Gadeiriol Sant Paul	2600	2200	2000	2000	1095	1076	937	838
Amgueddfa Llundain	274	264	278	293	303	350	357	315
Amgueddfa Brydeinig	5897	5746	6228	6057	5620	5461	5466	4801
Orielau Arddangos Llyfrgelloedd Prydain							318	370
Amgueddfa Forol Genedlaethol	538	609	458	476	474	564	335	410
Amgueddfa Astudiaeth Natur Genedlaethol	1625	1064	1607	1793	1905	1740	1577	1696
Amgueddfa Victoria ac Albert	1440	1224	1300	1041	1102	946	1344	1446
Amgueddfa Wyddoniaeth	1269	1556	1548	1537	1550	1481	1337	1353
British Airways London Eye							3300	3850
Tate Modern							3874	3552
Amgueddfa Ryfel Ymerodrol	468	478	444	520	472	483	576	638
Tŵr Llundain	2407	2537	2539	2615	2536	2422	2303	2019
Oriel Genedlaethol	4302	4469	5000	4809	4770	4965	4898	4919
Oriel Bortreadau Genedlaethol	1044	849	808	888	1017	1000	1178	1270
Tate Britain	2226	1770	2002	1758	2181	1822	1204	1012
Abaty Westminster	2200	2245	2500	2500	3000	1268	1230	986
Academi Frenhinol	952	881	780	859	913	1390	761	910
Sŵ Llundain	1047	1043	1002	1098	1053	1068	930	907
Oriel Serpentine	230	190	250	203	376		400	441
Oriel Ffotograffwyr	372	400	400	350	400	499	350	400

Ffynhonnell: Cyngor Twristiaeth Lloegr

Pam bod llefydd gwag yn y tabl yn eich barn chi? Amcangyfrifwyd rhywfaint o'r data; allwch chi nodi pa rai? Pam ydych chi wedi dewis y gwerthoedd hyn? Pa atyniad oedd fwyaf poblogaidd yn 2001? Ai hwn oedd y mwyaf poblogaidd yn 2000 hefyd? Pam bod rhai atyniadau yn fwy poblogaidd nag eraill yn eich barn chi. Gan edrych ar yr ugain atyniad mwyaf poblogaidd, nodwch dri atyniad arall yn Llundain sydd ar goll o'r rhestr. Trafodwch pam eu bod ar goll yn eich barn chi. Pa atyniadau welodd ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr? Allwch chi feddwl pam? (Awgrym: edrychwch ar y gwefannau unigol i gael gwybodaeth)

Gan ddefnyddio taenlen, llwythwch y data ar gyfer y tabl uchod. Wnaethoch chi ddyfalu'r gwerthoedd a amcangyfrifwyd yn gywir? Defnyddiwch y data i ateb, neu i ddangos, y canlynol. Trefnwch y tabl i ddangos y pum atyniad mwyaf poblogaidd yn 1995. Cyfrifwch y gwahaniaeth yn nifer yr ymwelwyr ar gyfer yr atyniadau mwyaf poblogaidd a lleiaf poblogaidd yn 2000. Plotiwch siart bar i gymharu nifer y bobl a ymwelodd â'r Amgueddfa Astudiaeth Natur a Thŵr Llundain, rhwng 1994 a 2001.

Defnyddiwch y Rhyngrwyd i gynllunio ymweliad diwrnod i Lundain ar gyfer eich dosbarth. Mae'n rhaid i chi drefnu trafnidiaeth a chostau mynediad i ddau atyniad gwahanol o leiaf. Archwiliwch bris gostyngiadau i grwpiau a chynigion arbennig.